**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Addysg a Sgiliau

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mercher, 14 Rhagfyr 2022 am 4.15 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M Durke (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | F M Gordon | L R Jones |
| S Joy | Y V Jardine | S Pritchard |
| T M White | R V Smith | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Stephen Holland | Uwch-Gyfreithiwr |
| Helen Howells | Rheolwr tîm Cefnogi Disgyblion |
| Sarah Hughes | Rheolwr Tîm Strategaeth Addysg |
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr Addysg |
| Melissa Perry | Cyfreithiwr Dan Hyfforddiant |
| Kate Phillips | Rheolwr yr Uned Ysgolion a Llywodraethwyr |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd R V Smith - Aelod y Cabinet Dros Addysg a Dysgu

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): B Hopkins

---

## 27 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 28 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforedig Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2022 fel cofnod cywir.

## 29 Presenoldeb a Chynhwysiant.

Rhoddodd Helen Howells a Kate Phillips gyflwyniad ar lafar/Powerpoint a oedd yn ymwneud â Strategaeth Cynhwysiad ddrafft 2022-2027.

Mae'r strategaeth yn gysylltiedig â'r blaenoriaethau corfforaethol ar gyfer addysg.

Mae gan y strategaeth 5 maes blaenoriaeth allweddol:

- Hybu presenoldeb
- Hybu cynhwysiad
- Gwreiddio darpariaeth gyffredinol effeithiol wrth gefnogi digon o leoedd arbenigol
- Gwreiddio ethos o gynhwysiad a rennir
- Iechyd emosiynol a lles seicolegol (ymagwedd ysgol gyfan)

Presenoldeb - yn hanesyddol, mae presenoldeb Abertawe wedi bod yn dda iawn, a chyn y pandemig y presenoldeb ar gyfer ysgolion cynradd oedd 95%, a 94.3% ar gyfer ysgolion uwchradd. Rhestrwyd Abertawe fel y nawfed orau yng Nghymru o ran presenoldeb.

Mae’r pandemig yn amlwg wedi effeithio ar y ffigurau hyn, ac ni fesurodd Llywodraeth Cymru ysgolion ar eu presenoldeb yn ystod y cyfnod ac ni chyhoeddwyd hysbysiadau cosb benodedig ychwaith a chynghorwyd plant i beidio â mynychu os oeddent yn teimlo’n sâl.

Ar ôl y pandemig 90.1% oedd y ffigurau presenoldeb ar gyfer cynradd ac 86.6% ar gyfer uwchradd, er taw Abertawe oedd y chweched orau yng Nghymru. Serch hynny, mae'r ffigurau hyn wedi gwella ymhellach yn ystod y tymor academaidd diweddar ac mae hyn i'w groesawu, a gellir eu cadarnhau unwaith y daw'r tymor i ben. Mae'r gostyngiad mewn ffigurau presenoldeb yn fater cenedlaethol ac nid yw'n rhywbeth sy'n berthnasol i Abertawe yn unig.

Mae hysbysiadau cosb benodedig bellach wedi’u hailgyflwyno gan Lywodraeth Cymru hefyd.

Mae’r problemau a achosir gan y pandemig sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc fel colli trefn arferol, profedigaeth, mwy o bryder a phroblemau iechyd meddwl, cynnydd mewn ymddygiadau heriol wedi effeithio ar bresenoldeb. Mae'r cynnydd mewn tlodi a'r argyfwng costau byw hefyd yn effeithio ar ffigurau presenoldeb.

Yr hyn y gallwn ei wneud yn y dyfodol:

- Adolygu proses y Gwasanaeth Lles Addysg
- Cyfarfodydd strategaeth presenoldeb misol
- Newid ein hymagwedd o strategaethau presenoldeb traddodiadol
- Cynhyrchu polisi presenoldeb wedi'i ddiweddaru ar y cyd

Gofynnodd aelodau'r pwyllgor gwestiynau niferus a gwnaethant sylwadau ynglŷn â'r wybodaeth a amlygwyd yn y cyflwyniad ac ymatebodd y Swyddogion, y Cyfarwyddwr ac Aelod y Cabinet yn briodol iddynt.

Yn ystod y drafodaeth, manylwyd ar y potensial a’r posibilrwydd i’r strategaeth newydd gynnwys a bod yn seiliedig ar glystyrau presennol, cyfranogiad cyrff llywodraethu a phobl ifanc er mwyn datblygu a hyrwyddo’r fenter, y defnydd

ehangach o arian cyllido allanol i gyflogi staff ychwanegol mewn rhai ysgolion, enghreifftiau o arfer da sydd ar waith ar hyn o bryd mewn ysgolion y gellir eu rhannu.

Gyda'r pwysau cyllidebol presennol y mae pob awdurdod lleol yn eu hwynebu, mae cynnydd mawr mewn cyllid yn annhebygol a gallai ffyrdd diwygiedig/gwahanol/callach o weithio o fewn cyllidebau presennol fod yr ateb wrth symud ymlaen.

Dywedodd swyddogion y byddent yn archwilio'r holl feysydd hyn a drafodwyd ac a amlygwyd cyn dod ag adroddiad pellach yn ôl i'r pwyllgor yn y flwyddyn newydd.

**30 Cynllun Gwaith**

Siaradodd y Cadeirydd ymhellach am y cynllun gwaith drafft a ddosbarthwyd ac amlinellodd y byddai'r cyfarfod nesaf yn canolbwyntio eto ar bresenoldeb a chynhwysiad gydag adroddiad/cyflwyniad yn adeiladu ar yr wybodaeth a ddarparwyd a thrafodaethau a gafwyd yn y cyfarfod heddiw.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.12 pm

**Cadeirydd**